# Diogelwch Tân mewn Preswylfeydd

## Pa fesurau diogelwch tân sydd ar waith yn eich llety preswyl?

• Mae gan yr holl breswylfeydd systemau tân sy'n monitro eich amgylchoedd ar bob adeg.

• Mae gan bob cegin synwyryddion gwres a blancedi tân.

• Mae gan bob ystafell wely a choridor synwyryddion mwg.

• Mae gan bob fflat offer ymladd tân a llwybrau gwarchodedig ar gyfer gadael yr adeilad mewn argyfwng tân.

• Mae gan y Gwasanaethau Preswyl Bwyllgor Diogelwch ac mae gan bob safle preswyl aelod penodedig o staff sy'n gyfrifol am weithredu diogelwch tân - gofynnwch i'ch Rheolwr Preswyl am fanylion.

• Mae ein Rheoliadau Preswyl yn cynnwys gwybodaeth hanfodol am ddiogelwch tân - darllenwch ragor am ddiogelwch tân yn y Rheoliadau Preswyl.

## Pa gamau y gallwch eu cymryd i helpu i sicrhau eich diogelwch?

• Cadwch y drysau tân ar gau.

• Peidiwch â gadael bwyd sydd wrthi'n cael ei goginio.

• Cadwch allanfeydd tân yn glir i sicrhau bod modd gadael yr adeilad yn gyflym mewn argyfwng.

• Gadewch yr adeilad pan fyddwch yn clywed y larymau ar bob adeg.

• Peidiwch ag ysmygu yn yr adeiladau - mae'r Brifysgol yn barth di-fwg a chanddi bolisi di-fwg.

• Ni ddylech oedi i gasglu eich eiddo pe bai angen i chi adael.

## Sut y gallwch ein helpu i osgoi larymau diangen?

• Peidiwch â defnyddio chwistrell gwallt yn agos i synwyryddion tân awtomatig - byddant yn eu sbarduno!

• Peidiwch byth â chadw drysau tân ar agor.

• Peidiwch â gadael bwyd sydd wrthi'n cael ei goginio- caiff sawl larwm diangen ei sbarduno gan fwg y bwyd a aeth yn angof.

• Peidiwch ag ymyrryd â'r synwyryddion mwg neu wres - bydd systemau diogelwch yn synhwyro eich bod wedi ymyrryd â'r synhwyrydd a gallech sbarduno'r larymau.

## Diogelwch tân

Cymerwch gip ar yr arwyddion tân a diogelwch sydd wedi'u lleoli yn eich eiddo - fe'u darperir i sicrhau eich diogelwch. Caiff taflenni gwybodaeth am ddiogelwch tân eu darparu ar gefn drws eich ystafell astudio, yn ogystal ag yn y gegin.

• Cadwch yr holl ardaloedd cymunedol ac allanfeydd tân yn glir rhag eiddo personol ar bob adeg.

• Mae saim llosg ar hobïau'r popty yn berygl tân felly sicrhewch eich bod yn eu glanhau'n rheolaidd.
• Mae canhwyllau, ffyn arogldarth a llosgwyr arogldarth yn achosi perygl tân gwirioneddol ac ni chânt eu caniatáu yn y preswylfeydd.

• Ni chaniateir gwresogyddion personol, tuniau nwy nac unrhyw ddeunyddiau fflamadwy eraill yn y preswylfeydd.

• Ni ddylid ond defnyddio a storio offer coginio personol (megis: platiau poeth; griliau; tostwyr brechdanau; cwcerau reis) yn y gegin. Ni chaniateir defnyddio eitemau o'r fath mewn ystafelloedd gwely.

• Mae ffriwyr saim dwfn yn achosi perygl tân sylweddol ac ni chânt eu caniatáu yn y preswylfeydd.

Am nodiadau cryno a hygyrch ar ddiogelwch tân, gallwch fewngofnodi i'ch Cyfrif Llety a darllen y trefniadau Sefydlu ar gyfer Llety . Ni fydd y modiwl ond yn cymryd ychydig funudau ac mae'n ffordd gyflym o ofalu am eich hun a'ch cyd-letywyr. Gallwch hefyd wylio ein fideo ar ddiogelwch tân ar-lein i weld pa mor gyflym y gall tân ledu mewn ystafell wely myfyriwr.

Cofiwch fod rheolau a rheoliadau tân ar waith i'ch gwarchod chi a phreswylwyr eraill rhag y perygl o dân. Mae dyletswydd arnom i sicrhau eich bod yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng, felly cymerwch eich amser i ymgynefino â'r ffeithiau sylfaenol i'ch cadw'n ddiogel.